



SEMESTER DAU 2023-2024

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

GW29920/39920: CENEDLAETHOLDEB MEWN THEORI A REALITI

Amser a ganiateir: **2 AWR**

Atebwch **DDAU** gwestiwn, **UN** cwestiwn o bob adran

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG.

NI CHANIMATEIR CYFRIFIANELLAU

Ar ôl eistedd, caiff myfyrwyr lenwi blaenddalen y llyfryn ateb a'r daflen

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR CWESTIYNAU ARHOLIAD DROSODD TAN EICH BOD WEDI CAEL CYFARWYDDYD I WNEUD HYNNY.

ADRAN A: CENEDLAETHOLDEB MEWN THEORI

1. Gwerthuswch yn feirniadol ddefnyddioldeb y gwahaniaeth rhwng dehongliadau dinesig ac ethnig o genedligrwydd a chenedlaetholdeb gan gyfeirio at **o leiaf un** astudiaeth achos.
2. 'Crises, such as the Falklands or Gulf Wars, infect a sore spot, causing bodily fevers: the symptoms are inflamed rhetoric and an outbreak of ensigns. But the irruption soon dies down; the temperature passes; the flags are rolled up; and, then it is business as usual' (Billig, 1995: 5). Beth a olygir gan hyn, ac a ydych yn cytuno?
3. Pa rôl chwaraeodd cyfalafiaeth brint wrth ffurfio "cymunedau dychmygol" newydd (Anderson, 1983)?
4. Gwerthuswch yn feirniadol gryfderau a gwendidau'r dull modernaidd o egluro cenhedloedd a chenedlaetholdeb gan gyfeirio ar waith **o leiaf dau** ysgolhaig.
5. Crynhowch a gwerthuswch gysyniad "atmosfferau affeithiol" Closs Stephens (2022) ar gyfer esbonio sut y teimlir y genedl mewn bywyd bob dydd.
6. A yw cenhedloedd yn ffenomen naturiol a hollgyffredinol, ac yn estyniad o berthnasau a chysylltiadau teuluol? Trafodwch yn feirniadol.

ADRAN B: CENEDLAETHOLDEB MEWN REALITI

1. Beth yw goblygiadau y cynnydd mewn pleidiau poblyddol ar gyfer gwleidyddiaeth gyfoes?
2. Ydy cenedlaetholdeb Hindwâidd yn herio'r syniad o "Undod mewn Amrywiaeth" a chenedlaetholdeb seciwlar yn India? Os felly, sut?

3. Pam fod merched fel arfer yn 'guddiedig' mewn ddamcaniaethau amrywiol o genedlaetholdeb?
4. Diffinnir poblyddiaeth fel 'an ideology that considers society to be ultimately separated into two homogeneous and antagonistic groups, "the pure people" versus "the corrupt elite", and which argues that politics should be an expression of the *volonté générale* (general will) of the people' (Mudde, 2004: 543). Dadansoddwch yn feirniadol gan gyfeirio at **o leiaf dwy** astudiaeth achos.
5. A yw'r egwyddor o hunanbenderfyniad cenedlaethol "wedi bod yn aflonyddu ar y byd ers y Chwyldro Ffrengig"? Os felly, sut?
6. Nid oedd y disgysiau "cenedl dominyddol" a oedd yn amlwg yn Iwgoslafia yn ystod y 1980au a'r 1990au yn gadael lle ar gyfer cyfaddawdu neu ddatrysiadau cyfansoddiadol. Trafodwch yn feirniadol.
7. 'Ar wahân i'r ffaith fod y pleidiau hyn wedi datblygu mewn ymateb i densiynau rhwng y perifferi a'r canol, nid oes modd trin pleidiau cenedlaetholgar di-wladwriaeth fel un teulu o bleidiau unffurf.' Trafodwch y datganiad hwn yn feirniadol gan gyfeirio **at o leiaf dwy** blaid genedlaetholgar ddi-wladwriaeth.
8. 'Nationalism has been defined as a patriarchal project that opposes the needs of the women and the goals of gender equality' (Chrisman, 2004: 188). Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn?